Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

Deisebu: amlygu'r materion sy'n bwysig i chi

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

T 0845 010 5500
www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

03

Cyflwyniad y Cadeirydd

Cafodd y broses ddeisebu ei sefydlu er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a dylanwadu arno.

Ers sefydlu'r broses, rydym ni fel Pwyllgor wedi ystyried 215 o ddeisebau, wedi cynnal 64 o gyfarfodydd, wedi clywed tystiolaeth lafar gan 38 o ddeisebwyr, a hyd yn oed wedi cael deiseb gan 30 o gŵn (a'u perchnogion).

Wrth i ni gyrraedd diwedd tymor y Pwyllgor Deisebau, roeddem yn teimlo ei fod yn gyfle da i edrych yn ôl dros waith y Pwyllgor. Roeddem hefyd am dynnu sylw at y ffordd y mae'r broses wedi gweithio ac at rai o'r rhwystredigaethau cyffredin yr ydym wedi dod ar eu traws ymhlith deisebwyr.

Ni yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yw un o'r ychydig gyrff sydd â system ddeisebu sy'n galluogi'r cyhoedd i ddylanwadu'n uniongyrchol ar fusnes y Cynulliad, a'i lunio. Fel gydag unrhyw system newydd, bu'n broses o ddysgu, ond roeddem yn awyddus i barhau i ddatblygu'n ffyrdd o weithio, a'u gwella er mwyn gwneud y broses mor effeithiol a hygyrch â phosibl.

Rwyf wedi mwynhau cadeirio'r Pwyllgor Deisebau, gan glywed am y materion y mae'r cyhoedd yn teimlo mor angerddol yn eu cylch a'u helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar bob lefel o'r Cynulliad. Hoffwn ddiolch i fy rhagflaenydd Val Lloyd, a weithiodd yn galed iawn i sefydlu'r Pwyllgor yn 2007, ac a lywiodd y Pwyllgor drwy ei ddwy flynedd gyntaf. Hoffwn ddiolch hefyd i fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgor ar hyn o bryd: Andrew RT Davies, Veronica German, Bethan Jenkins, ynghyd â'r cyn aelod o'r Pwyllgor, Mike German.

Ond yn fwyaf arbennig, hoffwn ddiolch i'n holl ddeisebwyr, aelodau o'r cyhoedd a oedd yn teimlo'n gryf am fater ac a gyflwynodd ddeiseb. Maent wedi rhoi o'u hamser a'u hegni i gasglu llofnodion, ymateb i'n cwestiynau niferus a hyd yn oed, mewn rhai achosion, wedi dod i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor. Heboch chi, ni fyddai gennym unrhyw beth i'w ddathlu. Diolch i chi.

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Beth yw'r Pwyllgor Deisebau?

Sefydlwyd y Pwyllgor Deisebau i ystyried deisebau a gyflwynwyd gan y cyhoedd. pwyllgor trawsbleidiol ydyw gydag aelodau o'r pedair plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad:

Christine Chapman, Llafur (Cadeirydd)
Andrew RT Davies, Ceidwadwyr
Veronica German, Democratiaid Rhyddfrydol
Bethan Jenkins, Plaid Cymru

Beth yw rôl y Pwyllgor Deisebau?

Mae'n rhaid i ni ystyried unrhyw ddeisebau derbyniadwy sy'n cael eu cyflwyno gan y cyhoedd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddeiseb fod yn ymwneud â mater y mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i ymdrin ag ef.

Er mwyn gwneud hyn, gallwn gymryd amrywiaeth o wahanol gamau, ac yn aml, byddwn yn gwneud cyfuniad o'r canlynol:

- ceisio gwybodaeth a barn gan Lywodraeth Cymru, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar;
- ceisio gwybodaeth a barn gan sefydliadau eraill a all fod â barn neu ddiddordeb yn y ddeiseb, er enghraifft, cyrff proffesiynol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, undebau llafur, grwpiau cymunedol neu unrhyw un arall y teimlwn y gall ychwanegu gwerth i'n hystyriaethau;
- gofyn am ragor o wybodaeth gan y deisebwyr naill ai'n ysgrifenedig neu fel rhan o sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor;
- mynd ar ymweliad â'r safle;
- cyfeirio'r ddeiseb at bwyllgorau eraill y Cynulliad neu sefydliadau allanol ;
- cael gwybodaeth ymchwil a chyfreithiol wedi'i pharatoi i'n helpu i ddeall y mater yn well; a
- chynnal ymchwiliad pwyllgor.

Yn ymarferol, mae ein hystyriaeth o ddeiseb gan amlaf yn golygu gohebu â Llywodraeth Cymru, deisebwyr a chyrff eraill sydd â diddordeb yn y mater.

Beth mae'r Pwyllgor wedi'i wneud?

Ers ei sefydlu mae'r Pwyllgor wedi:

- cynnal 64 o gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol a phedwar cyfarfod anffurfiol;
- ystyried 215 o ddeisebau, roedd 95 yn e-Ddeisebau a 124 yn ddeisebau ar bapur (o'r 215 deiseb honno, mae 72 yn parhau i fod ar agor ac mae 143 wedi'u cau);
- clywed tystiolaeth lafar gan 38 o ddeisebwyr;
- clywed tystiolaeth lafar gan 10 sefydliad arall;
- clywed tystiolaeth gan ddau Weinidog.

O ble y daeth ein deisebau ?

Gall bobl gyflwyno deisebau o unrhyw le yng Nghymru neu hyd yn oed o'r tu allan i Gymru. Nid oes unrhyw gyfyngiadau oed na phreswyl. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y broses mor hygyrch â phosibl. Mae ein system eDdeisebau, a sefydlwyd yn 2008, wedi helpu i wneud y system yn fwy hygyrch ac mae wedi galluogi pobl i ddangos eu cefnogaeth i ddeiseb, waeth ble maent yn byw.

Tabl un: Y deisebau fesul rhanbarth:

Rhanbarth	Nifer y deisebau	Canran o'r cyfanswm
Canolbarth a Gorllewin	50	23%
Gogledd	24	11%
De Canolbarth	80	37%
De-ddwyrain	32	15%
De-orllewin	22	10%
Y tu allan i Gymru	7	3%
Cyfanswm	215	100%

Gall unigolion neu sefydliadau gyflwyno deisebau. Mae'n rhaid i unrhyw ddeiseb gael cefnogaeth naill ai deg unigolyn neu un sefydliad. Gall sefydliad fod yn sefydliad sydd wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol, fel elusen, neu gall fod yn grŵp sydd wedi'i gyfansoddi'n llai ffurfiol fel cymdeithas tenantiaid a phreswylwyr neu grŵp ymgyrchu.

Rydym wedi cael 56% o ddeisebau gan unigolion a 44% gan sefydliadau/grwpiau.

Ynglŷn â beth y bu'r deisebau?

Cafwyd deisebau ynghylch bron i bob testun posibl, yn amrywio o doiledau cyhoeddus i dyrbinau gwynt, ceffylau i ysgolion. Gallwn ystyried deisebau ynghylch unrhyw destun sydd o fewn pwerau datganoledig y Cynulliad Cenedlaethol. Ni allwn ystyried deisebau ynghylch materion sy'n gyfrifoldeb i San Steffan neu sefydliadau eraill fel awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd.

Tabl dau: dadansoddiad o'r deisebau fesul maes pwnc.

Testun	Nifer y deisebau	Canran o'r cyfanswm
Cymunedau	10	5%
Economi	7	3%
Addysg	32	15%
Yr amgylchedd	25	12%
Iechyd	40	19%
Treftadaeth	1	Llai na 1%
Deddfwriaeth	6	3%
Cynllunio	11	5%
Chwaraeon	3	1%
Trafnidiaeth	39	18%
Yr iaith Gymraeg	4	2%
Arall	37	17%
Cyfanswm	215	100%

Beth mae'r Pwyllgor wedi'i wneud?

Dyma'r cwestiwn mwyaf cyffredin a ofynnir i ni. Mae pob deiseb yn wahanol, ac yn galw am gamau gwahanol iawn. Mae rhai yn benodol iawn, fel rhai sy'n galw am welliannau o ran diogelwch ar draffordd benodol, tra bod rhai eraill yn fwy eang, er enghraifft yn galw am fwy o gydraddoldeb i'r gymuned drawsryweddol.

Eto, mae pob deiseb yn dod o brofiad personol, gyda naill ai unigolyn neu grŵp o bobl yn dweud 'mae angen newid hyn', 'ni ddylai hyn ddigwydd' neu hyd yn oed 'dylai hyn ddigwydd'. Rydym bob amser yn ymwybodol iawn o hyn, ac yn ceisio sicrhau ein bod yn gwneud y cyfan a allwn i godi'r mater a cheisio mynd i'r afael ag ef. Mae canlyniad pob deiseb mor wahanol â'r deisebau sy'n cael eu hystyried gennym. Yr hyn sy'n rhaid i ni fod yn glir yn ei gylch yw na fydd cyflwyno deiseb yn arwain yn awtomatig at gyflawni amcanion y ddeiseb, ond mae'n ffordd effeithiol o dynnu sylw at fater. Yr hyn y gobeithiwn ei wneud yw rhoi blas i chi o'r gwahanol fathau o ganlyniadau, drwy enghreifftiau gwirioneddol.

I rai deisebwyr, rydym yn falch bod y camau y mae'r ddeiseb yn gofyn amdanynt yn cael eu cyflawni'n glir. Gall hyn fod o ganlyniad uniongyrchol i'r ddeiseb ac ymglymiad y Pwyllgor. Weithiau mae oherwydd bod y ddeiseb yn adlewyrchu cydnabyddiaeth ehangach bod angen newid, ac weithiau mae'n gyfuniad o'r ddau.

Ysgol Hen Felin
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan grŵp o bobl ifanc a oedd yn galw ar i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o arian ar gyfer grwpiau ar ôl ysgol. Roeddent yn pryderu'n arbennig am yr arian sydd ar gael ar gyfer grwpiau fel Viva sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc sydd ag anableddau dysgu gael mynediad at gyfleusterau hamdden prif ffrwd. Gwahoddwyd y bobl ifanc i ddod i ddweud wrthym pam bod hyn mor bwysig, ac wedi hynny, ysgrifennwyd at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i dynnu sylw at y mater. Ar ôl hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai arian ychwanegol ar gael i gefnogi cyfleoedd chwarae a dysgu ar gyfer pobl ifanc anabl.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Roedd y ddeiseb hon yn galw am ddarparu arian er mwyn sicrhau y gallai Llyfrgell Genedlaethol Cymru ailagor ar ddyddiau Sadwrn. Ymysg ein hystyriaethau roedd gohebu â'r Gweinidog dros Dreftadaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant. Roedd hyn yn egluro'r ffactorau a arweiniodd at gau'r llyfrgell ar ddyddiau Sadwrn, gyda'r penderfyniad yn cael ei wrthdroi yn y pen draw a'r llyfrgell yn ailagor ar ddyddiau Sadwrn o fis Mai 2010. Dyma ddeiseb lle'r oedd yn amlwg bod gwaith eisoes ar droed i fynd i'r afael â'r mater cyn cyflwyno'r ddeiseb, ond bu'r broses ddeisebu o gymorth i ddangos teimladau'r cyhoedd am y mater a bu o gymorth i roi pwysau i ailagor y llyfrgell.

"Bu o gymorth i godi ymwybyddiaeth wleidyddol ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'n mater"

Gyda llawer o ddeisebau, canlyniad allweddol yw ei fod yn helpu i godi proffil mater gydag Aelodau Cynulliad eraill, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd. Gall y broses ddeisebu helpu i roi pwysau ar wleidyddion i fynd i'r afael â mater. Gall hyn fod yn arbennig o effeithiol ar gyfer y materion hynny nad oes ganddynt broffil cyhoeddus uchel, neu sy'n cael effaith ar grŵp o bobl nad ydynt yn cael cynrychiolaeth ddigonol yn y broses wleidyddol ac nad ydynt yn ymgysylltu â'r Cynulliad fel arfer.

Dyma un o'r canlyniadau mwyaf cyffredin a phwysig i ni. Gall helpu i roi llais i'r rhai hynny na chant eu clywed bob amser.

Safonau Canser Cenedlaethol
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rhondda Breast Friends, ac roedd yn galw ar i fyrddau iechyd lleol gyrraedd y Safonau Canser Cenedlaethol erbyn 2009. Yn ystod ein hystyriaethau, buom yn gohebu'n rheolaidd â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â phob bwrdd iechyd lleol. Mae llawer o'n hystyriaethau wedi canolbwyntio ar feysydd o ddiffyg cydymffurfio a'r ffactorau sy'n achosi hyn, y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afal â diffyg cydymffurfio a gwybodaeth i'r cyhoedd. Er na chafodd amcanion y ddeiseb eu bodloni eto, yr ydym wedi parhau i ddilyn y ddeiseb er mwyn ceisio sicrhau bod yr holl fyrddau iechyd lleol yn cyrraedd y Safonau fel mater o flaenoriaeth. Yn ôl y prif ddeisebydd:

"I believe that compliance with the Standards has been given its rightful importance with the enthusiasm and tenacity of the Petitions Committee in pursuing this."

Cydraddoldeb i'r gymuned drawysryweddol

Mae'r ddeiseb hon yn galw am fwy o gydraddoldeb i'r gymuned drawsryweddol. Mae hwn yn fater nad yw bob amser yn cael proffil cyhoeddus na gwleidyddol uchel, ac eto mae rhai o'r anawsterau sy'n cael eu hwynebu yn cael effaith fawr ar fywyd pob dydd pobl. Clywsom dystiolaeth lafar gan y deisebwyr, a ddywedodd wrthym am yr anawsterau hyn. O ganlyniad i hyn, ysgrifennwyd at Brif Weinidog Cymru yn tynnu sylw at y pryderon ynghylch amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys mynediad at wasanaethau iechyd, cyflogaeth, ymwybyddiaeth gyhoeddus a throsedd casineb ac rydym wedi galw ar i ragor o waith gael ei wneud er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

“Dim ond un rhan o’n hymgyrch ehangach oedd y ddeiseb”

Y deisebau mwyaf ‘llwyddiannus’ yn aml yw’r rhai hynny lle mae’r broses ddeisebu yn un elfen o ymgyrch ehangach. Yn aml gall deiseb ddarparu canolbwynt ar gyfer gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o fater, codi ymwybyddiaeth wleidyddol a chael sylw gan y wasg. I rai deisebwyr, yn ogystal â chyflwyno’r ddeiseb, byddant hefyd yn trefnu ymgyrchoedd ysgrifennu llythyrau, protestiadau a gweithgareddau eraill er mwyn ceisio rhoi sylw i’w mater.

Achub Theatr Gwent
Roedd y ddeiseb hon yn galw am adfer yr arian ar gyfer y cwmni theatr mewn addysg, Theatr Gwent. Nid y ddeiseb oedd unig elfen eu hymgyrch; maent wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd; maent wedi trefnu ymgyrch ysgrifennu llythyrau, gyda 740 o lythyrau’n cal eu hanfon at Gyngor Celfyddydau Cymru; a bu Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad lleol ynghlwm â’u hymgyrch. Bu’r ddeiseb yn un ffordd o dynnu sylw at eu pryderon a cheisio cael sylw i’r mater. Fel rhan o’n hystyriaethau rydym wedi clywed tystiolaeth lafar gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac rydym wedi tynnu sylw’r Gweinidog dros Dreftadaeth at ein pryderon.

Trenau i Abergwaun
Roedd y ddeiseb hon a gyflwynwyd gan ddau o bobl ifanc lleol, yn galw am fwy o wasanaethau trên i Abergwaun. Roedd eu deiseb yn rhan o ymgyrch ehangach, a oedd yn cynnwys defnyddio Facebook ac ymgysylltu â’u Haelod Cynulliad lleol, sydd wedi codi’r mater hwn yn y Cynulliad. Buont hefyd yn llwyddiannus o ran cael sylw’r wasg drwy Gymru i’r mater. Rydym wedi ysgrifennu at Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ynghylch y mater hwn yn ogystal â chyfeirio’r ddeiseb at y Pwyllgor Menter a Dysgu sydd wedi ei hystyried fel rhan o’i ymchwiliad i seilwaith y rheilffyrdd yng Nghymru.



“Arweiniodd fy neiseb at ymchwiliad llawn gan bwyllgor craffu”

Un o’r ffyrdd mwyaf effeithiol y gallwn weithio yw drwy ddylanwadu ar waith y Cynulliad. Bu hyn yn bennaf drwy gyfeirio deisebau at bwyllgorau craffu a phwyllgorau eraill y Cynulliad sydd â’r arbenigedd pwnc i edrych mewn manylder ar fater deiseb. Gall hyn arwain at ymchwiliad, argymhellion i Lywodraeth Cymru a newidiadau polisi.

Er 2007, rydym wedi cyfeirio 50 o ddeisebau at bwyllgorau eraill y Cynulliad, ac arweiniodd 17 ohonynt at ystyriaeth fanwl bellach gan y pwyllgor perthnasol. Rydym yn falch iawn o weld y brwdfrydedd y mae pwyllgorau eraill y Cynulliad wedi’i ddangos tuag at y deisebau, gan alluogi’r cyhoedd i lunio’u gwaith. Yn arbennig, hoffem dynnu sylw at waith y Pwyllgor Menter a Dysgu, sydd wedi gwneud gwaith ar naw o’r deisebau yr ydym wedi’u cyfeirio.

Gwahardd bagiau plastig
Roedd y ddeiseb hon yn galw am wahardd bagiau plastig. Ar ôl rhoi ystyriaeth gychwynnol i’r ddeiseb, gan gynnwys clywed tystiolaeth lafar gan y deisebwyr, teimlwyd ei bod yn teilyngu rhagor o waith ymchwil manwl. Cyfeiriwyd y ddeiseb at y Pwyllgor Cynaliadwyedd a gytunodd i gynnal ymchwiliad llawn. Gwnaeth y Pwyllgor hwnnw argymhelliad i Lywodraeth Cymru bod lefi’n cael ei gyflwyno ar gyfer bagiau plastig untro. Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad hwn, ac o fis Tachwedd 2011, bydd tâl o 5c am bob bag plastig untro. Daeth hyn i gyd o ganlyniad i’r ddeiseb.

Gorsaf Carno: ailagor

Roedd y ddeiseb hon yn galw am ailagor Gorsaf Carno. Dyma un o'r deisebau cyntaf i ni eu hystyried erioed, ac fe'i cyfeiriwyd at y Pwyllgor Menter a Dysgu. Cynhaliodd y Pwyllgor hwnnw gyfarfod yng Ngharno lle cafwyd tystiolaeth gan y deisebwyr, Cyngor Sir Powys, Network Rail, Trenau Arriva Cymru a Llywodraeth Cymru. Gwnaethpwyd argymhelliad i Lywodraeth Cymru bod Grŵp Gweithredu Gorsaf Carno yn cael cymorth o ran paratoi achos busnes, a bod canllawiau'n cael eu cyhoeddi ar baratoi achosion busnes ar gyfer ailagor gorsafoedd. Cafodd yr adroddiad hwn ac ymateb y Llywodraeth wedyn eu trafod gan y Cynulliad.

Pride in Barry

Roedd y ddeiseb hon yn galw am arian adfywio ar gyfer y Barri. Clywsom dystiolaeth lafar gan y deisebydd, a theimlwyd ei fod yn fater a oedd angen ei ymchwilio ymhellach felly fe'i cyfeiriwyd at y Pwyllgor Menter a Dysgu. Cynhaliodd y Pwyllgor hwnnw gyfarfod ffurfiol yn y Barri, gan gymryd tystiolaeth gan y deisebydd a Llywodraeth Cymru. Cafwyd sesiwn meicroffon agored i ddilyn. Gwnaeth y Pwyllgor Menter a Dysgu argymhelliad fod Barri yn deilwng o ystyriaeth ddifrifol ar gyfer cymorth i adfywio ar gyfer y dyfodol a thrafodwyd yr adroddiad gan y Cynulliad. Wrth roi tystiolaeth, dywedodd y prif ddeisebydd:

"The petitioning process, which has led to our coming here, has given Pride in Barry a voice that was being stifled. So, we have to say thank you very much for a process that allows small community groups such as ours to come here and create a big noise, as we know we have done through this process. Even if you make no recommendations on this, we know that we have raised the needs and issues relating to Barry loudly in this building and have caused two Ministers to come here today to answer questions about that and to realise its importance. In itself, that is a win for us".

"Syndod annisgwyl!"

Yn ystod ein hystyriaeth o ddeiseb, gellir cael canlyniadau sydd braidd yn wahanol i brif amcanion y ddeiseb. Mae'r rhain yn dangos sut y gall y broses ddeisebu eich helpu mewn ffyrdd gwahanol i'r hyn yr oeddech yn ei ddisgwyl wrth gyflwyno'ch deiseb.

Camlas Morgannwg
Roedd y ddeiseb hon yn galw am greu llwybr hanesyddol i nodi Camlas Morgannwg. Fel rhan o'n hystyriaethau, codwyd y ddeiseb gyda Chyngor Caerdydd a Chyngor Rhondda Cynon Taf. Arweiniodd hyn at i Gyngor Caerdydd gytuno i ystyried y llwybr i'w gynnwys o bosibl yn y Rhwydwaith Beicio Strategol, ac i Gyngor Rhondda Cynon Taf ei godi gyda Chynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA) sydd wedi cytuno i hyrwyddo'r llwybr fel cynllun cerdded/beicio. Dywedodd y deisebydd:

"All your [the Committee's] efforts are extremely valuable and I hope we will make further progress in the future".

Coleg Ceredigion
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan grŵp o bobl ifanc a oedd yn galw am wasanaethau rheilffyrdd gwell i Aberystwyth. O ganlyniad i awgrym y Pwyllgor y dylai'r deisebwyr gyfarfod â TRaCC (Trafnidiaeth Canolbarth Cymru) cynhaliwyd digwyddiad ymgyfarwyddo â thrafnidiaeth i'r deisebwyr. Bu hyn o gymorth i'w hyder i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a dywedodd y prif ddeisebydd wrthym:

"I think this is an example of a petition that has successfully stimulated collaboration with local partners."

"Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion penodol i Lywodraeth Cymru"

Ar adegau, lle mae'r mater mor benodol fel ei fod yn annhebygol o gael ei ystyried gan unrhyw bwyllgor arall, rydym wedi cynnal ymchwiliad. Nid oes gennym y gallu i gynnal ymchwiliadau yn rheolaidd, ac nid ydym yn credu mai dyma ddylai rôl sylfaenol y Pwyllgor fod. Fodd bynnag, ar yr adegau hynny lle rydym yn teimlo y gellir gwarantu rhagor o waith manwl, rydym wedi gwneud hynny.

Achub y Vulcan
Roedd y ddeiseb hon yn galw am ddiogelu tafarn y Vulcan yng Nghaerdydd, a'i chadw. Er na chynhaliwyd ymchwiliad, clywsom dystiolaeth lafar gan nifer o bobl, gan gynnwys y deisebwyr, CADW a Chyngor Caerdydd. Yn dilyn ein hystyriaeth, cyhoeddwyd adroddiad a oedd yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ddiogelu adeiladau hanesyddol nad ydynt yn bodloni meini prawf rhestru cenedlaethol. Roeddem yn falch bod y Llywodraeth wedi derbyn ein hargymhellion mewn perthynas â rhestru lleol.

Cymdeithas Ganŵa Cymru
Roedd y ddeiseb hon yn galw am ddeddfwriaeth i sefydlu hawl statudol i fynediad cyhoeddus i ddŵr di-lanw yng Nghymru ac ar ei hyd. Aethom ar ymweliad â safle'r Afon Teifi yn Sir Gaerfyrddin gan gymryd tystiolaeth gan amrywiaeth o bobl a chynhaliwyd cyfarfod ffurfiol yn yr Alban i glywed tystiolaeth am effeithiolrwydd deddfwriaeth yr Alban. O ganlyniad i'n hymchwiliad, cynhaliodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ymchwiliad llawn, gan argymell bod system wirfoddol o gytundebau mynediad yn cael ei chyflwyno.

21

Darpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed

Roedd y ddeiseb hon yn galw am welliannau i ddysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed. Clywsom dystiolaeth lafar gan ddau o bobl ifanc, a oedd yn tynnu sylw at y sefyllfa ariannol beryglus y gall rhai pobl ifanc sydd mewn sefyllfa dysgu'n seiliedig ar waith fod ynddi. Daethom â'r mater i sylw'r pwyllgorau eraill a Chomisiynydd Plant Cymru, a oedd yn cytuno ei fod yn deilwng o ragor o ystyriaeth ond ni allent wneud unrhyw waith arno. O ganlyniad, cynhaliwyd ymchwiliad llawn gyda nifer o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar. Cyhoeddwyd adroddiad a oedd yn gwneud 25 o argymhellion, gyda 20 o'r rheini naill ai'n cael eu derbyn neu eu derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru. Wedyn cafodd yr adroddiad ei drafod gan y Cynulliad.

Beth fu'r rhwystredigaethau cyffredin gyda'r system?

Fel gydag unrhyw system newydd, cafwyd problemau cychwynnol ar hyd y ffordd. Rydym wedi ymdrechu i barhau i wella'r broses ddeisebu drwy gydol y pedair blynedd y bu'n gweithredu, er mwyn sicrhau bod y system yn hawdd i'w defnyddio, yn hygyrch ac mor llwyddiannus â phosibl. Mae'n deg dweud na fu pawb yn hapus â'r ffordd y mae'r system ddeisebu wedi gweithio, ond rydym wedi dysgu o hyn ac mae wedi'n helpu i ddatblygu a newid ein ffyrdd o weithio lle mae hynny'n angenrheidiol.

"Roeddwn i am gyflwyno tystiolaeth lafar ond ni chefais wahoddiad i wneud hynny gan y Pwyllgor"

Gwyddom mai un o agweddau pwysicaf y broses i lawer o ddeisebwyr yw'r gallu i ddod i siarad â'r Pwyllgor am eu deiseb. Mae'n fuddiol iawn i glywed gan ddeisebwyr, ond mae nifer y deisebau a dderbyniwn yn golygu na allwn wneud hyn gyda phob deiseb.

Dros y pedair blynedd diwethaf, clywsom gan gyfanswm o 38 set o ddeisebwyr am amrywiaeth eang o destunau gan gynnwys sgrinio ar gyfer canser y prostad, gwasanaethau fferi rhwng Abertawe a Chorc a Chanolfan Gelfyddydau Glannau Gwy. Er mwyn sicrhau bod yr holl ddeisebau'n cael eu trin yn deg, cafodd yr holl ddeisebwyr hyd at 15 munud i gyflwyno'u deiseb, gyda hyd at 15 munud o gwestiynau gan y Pwyllgor i ddilyn.

Yn ychwanegol at glywed tystiolaeth lafar gan ddeisebwyr, rydym hefyd wedi clywed tystiolaeth gan sefydliadau eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ar 12 achlysur arall. Rydym hefyd wedi cynnal un ymchwiliad byr ar fynediad i ddŵr mewndirol, ac un ymchwiliad llawn ar ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed, lle clywsom dystiolaeth lafar gan saith o sefydliadau.

Yn ogystal â chlywed tystiolaeth yn y Senedd ym Mae Caerdydd, rydym hefyd wedi cynnal cyfarfodydd allanol ac wedi bod ar ymweliadau â safleoedd i'n helpu i ddeall y materion y tu ôl i'r deisebau. Cynhaliwyd ein cyfarfod allanol mwyaf yng Nghanolfan Catrin Finch yn Wrecsam ar 01 Chwefror 2010, lle clywsom dystiolaeth gan Gyngor Pobl Gogledd Cymru am eu deiseb yn galw am dynnu'n ôl yn ffurfiol o'r strategaeth isranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd-ddwyrain Cymru. Roeddem yn falch o weld faint o'r cyhoedd a ddaeth i'r cyfarfod i wrando ar y dystiolaeth gan y deisebwyr a Chynghrair Mersi a Dyfrdwy. Bu hyn o gymorth i ni ddeall y ddeiseb yn well ynghyd â'r teimladau cryfion am y mater hwn.

Cynhaliwyd cyfarfodydd allanol hefyd ym Mae Colwyn ac yn Sioe Frenhinol Cymru, a roddodd gyfle eto i ni glywed tystiolaeth y tu allan i Gaerdydd.

Yn ogystal â chynnal cyfarfodydd, rydym hefyd wedi bod ar ymweliadau er mwyn ein helpu i ystyried deisebau, gan gynnwys ymweliad â darn o'r A465 ym Merthyr Tudful mewn perthynas â deiseb yn galw am ffordd liniaru i fynd â'r traffig oddi wrth ysgol leol.

Pan gaiff deiseb ei chyflwyno i'r Pwyllgor, rhoddir cyfle hefyd i'r deisebydd gyflwyno'r ddeiseb i aelodau'r Pwyllgor. Gwneir hyn ar stepiau adeilad y Senedd, ac mae'n rhoi cyfle i'r deisebwyr sgwrsio â ni am y ddeiseb. Gallwch hefyd wahodd y wasg i fod yn bresennol, ac mae pobl sy'n cyflwyno deisebau wedi ymddangos ar BBC Wales, ITV Wales, S4C a Newsround, yn ogystal â mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol ac ar-lein. Mae hyn yn gyfle gwych i chi dynnu sylw at y mater, ac i ni ddarganfod mwy am y ddeiseb.

“Mae wedi cymryd cymaint o amser i unrhyw beth ddigwydd”

Pryder cyffredin yw’r amser a gymerwn i ystyried deisebau a’u cau. Fel Pwyllgor, rydym yn awyddus i ymchwilio i bob ongl a phob mater sy’n ymwneud â deiseb, ac nid ydym yn hoffi cau deisebau nes ein bod yn sicr ein bod wedi ymchwilio i bob un o’r elfennau hyn. I rai deisebwyr, maent yn teimlo bod hyn yn dangos ymrwymiad i geisio mynd i’r afael â’r materion sy’n eu pryderu, ond mae eraill yn teimlo bod y broses yn rhy araf. Rydym wedi gweithio’n galed i geisio gwella’n prosesau ar gyfer ceisio cael canlyniadau cyflymach i’r deisebau, ond rydym yn deall bod hyn wedi achosi rhwystredigaeth i rai deisebwyr.

“Ni ddigwyddodd unrhyw beth! Ni wnaeth y Pwyllgor yr hyn yr oeddwn am iddo’i wneud!”

Y pryder mwyaf cyffredin sydd gan bobl gyda’r broses yw nad yw’r camau y mae’r ddeiseb yn gofyn amdanynt yn cael eu cymryd. Mae’n rhaid i ni fod yn glir a dweud nad yw cyflwyno deiseb yn golygu y caiff y camau y gofynnir amdanynt eu cymryd.

Disgrifiodd un o’n haelodau, Mike German, y Pwyllgor unwaith fel ‘sbotolau’ nid pwyllgor ‘atebion’. Dyma’r disgrifiad gorau o’r Pwyllgor. Ni allwn sicrhau y gallwn ddod o hyd i ateb i chi, ond gobeithiwn y gallwn helpu i gael atebion a cheisio cael datrysiad drwy roi goleuni ar y mater.

Nid oes gennym bwerau i orfodi Llywodraeth Cymru nag unrhyw sefydliad arall i gymryd unrhyw gamau penodol, ond gallwn wneud argymhellion iddynt os teimlwn fod hynny’n briodol. Gwelwn yn aml fod ystyried deiseb yn unig yn helpu i godi ymwybyddiaeth wleidyddol o fater neu hyd yn oed yn rhoi rhywfaint o bwysau gwleidyddol i fater gael sylw.

Y dyfodol...

Rydym am eich annog i barhau i gyflwyno deisebau. Mae'n ffordd hawdd i glywed eich llais, tynnu sylw at faterion o bryder a dylanwadu ar waith y Cynulliad. Rydym yn gobeithio y bydd y broses yn parhau i ddatblygu, er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd ac yn hygyrch i unrhyw un ddweud ei farn wrth y Cynulliad neu ddangos yr hyn sydd o bwys iddo.

Cysylltu â ni

Os oes diddordeb gennych mewn cyflwyno deiseb, cysylltwch â ni ar **029 2089 8998** neu e-bost **deisebau@cymru.gov.uk**

Y tîm Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

www.cynulliadcymru.org
www.cynulliadcymru.org/e-petitions